**Tasg 3**

# Gwylio'r anifeiliad yn ein gwylio ni

## Dinistrio bywyd gwyllt

Mae'r darn yn cyfeirio at ddyn yn dinistrio bywyd gwyllt.

> Maizz Visual greodd y gosodiad, ar sail adroddiad gan y WWF* a oedd yn dangos bod hanner yr anifeiliad gwyllt yn y byd wedi diflannu yn ystod y 42 mlynedd diwethaf, o ganlyniad i weithredoedd dyn. Rydyn ni'n eu lladd nhw … rydyn ni'n llygru eu hamgylchedd … rydyn ni'n dinistrio'u cynefinoedd. Mae hyn yn anhygoel! Mae hyn yn anfoesol!

1. Chwiliwch ar y we am wybodaeth ynglŷn â sut mae dyn yn dinistrio bywyd gwyllt.

2. Rhannwch y wybodaeth yma mewn grwpiau.

3. Paratowch ddogfen i godi ymwybyddiaeth pobl eraill o'r peryglon mae anifeiliaid gwyllt yn eu hwynebu o ganlyniad i weithredoedd dyn.
Gallwch chi ddewis eich ffurf eich hun (meddyliwch yn ôl i gwestiwn 2c. yn Nhasg 2).